GWELLIANT CYMRU | IMPROVEMENT CYMRU

# Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis

## Datblygu a Gwella Gwasanaethau

## Cyfres Dau: Gwireddu Gwelliannau Data



**Grŵp Llywio Cenedlaethol Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis

**Gwelliant Cymru yw'r gwasanaeth gwella ar gyfer GIG Cymru. Ein nod yw cefnogi creu system iechyd a gofal o'r ansawdd gorau i Gymru fel bod gan bawb fynediad at ofal diogel, effeithiol ac effeithlon yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn.**

## Cyflwyniad

Mae gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis (EIP) yn helpu pobl ifanc sydd â Chyfnod Cyntaf o Seicosis (FEP) gyda'u hadferiad a'u helpu i gael ansawdd bywyd da. Mae'r gwasanaethau yn cefnogi mwy na 10,000 o bobl ifanc bob blwyddyn yn y DU (1).

Er mwyn sicrhau gwasanaethau EIP diogel ac effeithiol yng Nghymru, mae angen deall gweithgarwch gwasanaethau, sut y maent yn bodloni safonau cenedlaethol ac ansawdd y gofal a ddarperir.

Mae gwasanaethau yng Nghymru yn gweithio tuag at gyflawni safonau a nodir gan Rwydwaith EIP Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (EIPN) (2) ac Archwiliad Clinigol Cenedlaethol Seicosis (NCAP) penodol ar gyfer EIP (3). Mae'r ddau yn nodi'r safonau ar gyfer darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau iechyd meddwl fel meincnod ar gyfer darparu arfer amserol ac effeithiol ac yn hyrwyddo ffocws ar swyddogaeth ac ethos darparu model gofal EIP.

Comisiynir NCAP gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Rhaglen Archwilio Clinigol Genedlaethol a Chanlyniadau Cleifion (NCAPOP). Mae NCAP yn mesur gwasanaethau yn erbyn meini prawf sy'n ymwneud â'r gofal a'r driniaeth a ddarperir ganddynt, fel y gellir gwella ansawdd gofal.

**Early Intervention in Psychosis**



**Mae 35% o bobl ifanc sydd mewn gwasanaethau EIP mewn cyflogaeth o gymharu â 12% sy'n derbyn gofal safonol (4)**



**Mae unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau EIP arbenigol yn profi'r gwahaniaeth rhwng bywyd o anabledd a bywyd gweithredu cymharol uchel (5)**




**Mae mynediad at driniaeth effeithiol gyflym yn arwain at well iechyd corfforol a chanlyniadau addysgol (6)**

# Y sefyllfa yng Nghymru


**Gosododd gwasanaethau yng Nghymru dargedau yn erbyn ffigurau a adroddwyd gan Archwiliad Clinigol Cenedlaethol o Seicosis (NCAP) ar gyfer meysydd gwella allweddol. Mae targed gwelliant o 25% wedi'i nodi ar gyfer y cyfnod 2022 - 2023 yn seiliedig ar ffigurau NCAP 2021 - 2022 ar gyfer iechyd corfforol, darparu addysg a chymorth sy'n canolbwyntio ar ofalwyr a darparu modd i fesur canlyniadau.**

Mae'r targedau gwella cenedlaethol a lleol allweddol hyn wedi'u nodi fel ymrwymiadau ym mhapur sefyllfa 2022 'Buddsoddi yn y Genhedlaeth Nesaf: beth sydd angen ei newid ar gyer pobl sydd â seicosis cynnar sy'n byw yng Nghymru (7) a darparu sylfaen ar gyfer targedau yn ystod 2023 - 2025.

Mesurau Sgrinio **wedi'u Cynnig** yng Nghymru





Ymyriadau **wedi'u Cynnig** yng Nghymru




## Targedau Cenedlaethol 2022 - 2023

**Canran y defnyddwyr gwasanaeth a fydd yn cael cynnig pob un o'r 7 mesur sgrinio yn ystod y 12 mis nesaf**






**Bydd 50% o deuluoedd a gofalwyr yn manteisio ar y cynnig o addysg a chymorth sy'n canolbwyntio ar ofalwyr [+25%]**




**Bydd 40% o'r defnyddwyr gwasanaeth wedi cael 2 fesur canlyniad neu fwy wedi'u cofnodi o leiaf ddwywaith [+25%]**

Trwy ddefnyddio methodoleg gwella, mae Gwelliant Cymru wedi ymrwymo i gefnogi gwasanaethau yn genedlaethol i hyrwyddo gofal diogel, effeithiol ac effeithlon sy'n cael eu darparu ar yr amser iawn ac yn y lle iawn. Ar hyn o bryd, mae Gwelliant Cymru yn gweithio gyda gwasanaethau EIP yng Nghymru i gefnogi dealltwriaeth o sut mae data ar gyfer gwelliant yn allweddol ar gyfer darparu gofal o ansawdd da, cytuno pa ddata sydd angen ei gasglu er mwyn dangos canlyniadau ac effaith a datblygu prosesau darbodus cadarn er mwyn dod o hyd i ddata.

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi:

- Datblygu mesuriadau gwaelodlin
- Cwmpasu a datblygu proses er mwyn dod o hyd i ddata
- Monitro ansawdd gofal cleifion dros amser
- Gwneud penderfyniadau a gwerthuso'r ddarpariaeth
- Gwerthfawrogiad o sut a ble y mae adnoddau'n cael eu defnyddio
- Dealltwriaeth o dagfeydd a chyfyngiadau sy'n bodoli o fewn y system
- Gwybodaeth am allu a chapasiti gwasanaethau
- Mentrau gwella gwasanaeth
- Targedau gwelliant allweddol yn lleol ac yn genedlaethol




gwaith gan wasanaethau EIP ledled Cymru a Gwelliant Cymru wedi canolbwyntio i ddechrau ar nodi set ddata sy'n cynnig gwerth i wella'r gofal sy'n cael ei ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaethau, profi a datblygu'r prosesau, ffynonellau data a chasglu llinellau sylfaen.

Er mwyn sicrhau aliniad â NCAP, mae set ddata arfaethedig EIP wedi cynnwys eitemau a nodwyd fel safonau cenedlaethol. Gan fod rhaglen NCAP 2022 - 2025 yn symud tuag at gasglu data arferol yn lle eitemau blynyddol pwrpasol, mae'r set ddata sy'n cael ei datblygu yng Nghymru wedi darparu ar gyfer y ddau er mwyn gallu adnabod a mesur pob agwedd ar ofal EIP.


Mae rhaglen waith genedlaethol EIP yng Nghymru'n cefnogi model ffrwd waith er mwyn hyrwyddo dull cyson o wella gwasanaethau ac arfer ledled Cymru.

Mae casglu data'n chwarae rhan allweddol ym mhob un o'r wyth ffrwd gwaith a nodwyd er mwyn llywio dysgu, darparu tystiolaeth, gwella dealltwriaeth a chefnogi cyfathrebu.

> "Pwrpas mesur yw dysgu"
>
> "Heb ddata, dydych chi'n ddim ond person arall gyda barn"
>
> **(W. Edwards Deming)**

# Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru

**Mae set ddata EIP yn cael ei datblygu drwy gylchoedd gwella a methodoleg. Ar hyn o bryd mae'r gwaith ar y cam cynllunio a phrofi yn unol â'r fframwaith cyflawni.**




Mae Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru yn cynnig proses systematig, y gellir ei hailadrodd sy'n addasu i anghenion penodol pob cyd-destun rhanbarthol ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu, profi a rhannu syniadau. Mae'n ceisio cefnogi sefydliadau a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i lywio'r camau mabwysiadu yn y camau cynnar hanfodol drwy alluogi profi a chyd-gynhyrchu gwelliannau. Gall rhanbarthau ddefnyddio'r fframwaith i alluogi ffocws ar gynllunio, ymgysylltu, profi a lledaenu a maint gwelliannau, gan geisio adeiladu gallu gwella mwy effeithiol ar draws y system sy'n integreiddio â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae gan weithlu EIP fynediad at hyfforddiant ac adnoddau er mwyn arfogi timau â gwybodaeth a chymorth i ddefnyddio methodolegau gwella ansawdd wrth ddatblygu a gwerthuso gwasanaethau EIP yng Nghymru.

# Gwireddu Gwelliannau Data yng Nghymru

**Mae dadansoddwyr data Gwelliant Cymru yn cefnogi gwasanaethau EIP ledled Cymru gyda'r gwaith hwn. Mae cyfarfod cenedlaethol sy’n cael ei gynnal pob dau fis yn caniatáu cynllunio parhaus a rhannu profiadau trwy gylchoedd profi. Mae dadansoddwyr wedi cyfarfod ag arweinwyr gwasanaethau EIP yn unigol er mwyn archwilio prosesau lleol ac mae rhaglen o gyfleoedd hyfforddi cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar fesur ar gyfer gwelliant yn cael ei chyflwyno i bob ymarferydd EIP.**

Unwaith y bydd wedi'i ddiffinio a'i brofi, bydd y set ddata EIP arfaethedig y cytunwyd arni’n cael ei rhannu â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn penderfynu ar y camau nesaf o ran datblygu casglu data cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac EIP.

Bydd yr allbwn yn ddarn o waith wedi’i gyd-gynhyrchu rhwng Gwelliant Cymru a phob un o’r saith gwasanaeth EIP yng Nghymru. Bydd y set ddata’n diwallu anghenion gwasanaethau byrddau iechyd lleol, yn llywio gwelliant a dysgu, yn gwasanaethu prosesau gwneud penderfyniadau lleol ac yn cynhyrchu data cenedlaethol arferol yn y tymor hwy. Yr uchelgais yw creu dangosfwrdd data EIP cenedlaethol amser real sy’n galluogi gwasanaethau i weld eu gweithgarwch fesul mis yn ogystal â chynnig persbectif cenedlaethol ar ddarpariaeth gwasanaethau EIP yng Nghymru.



**Mae gwelliant yn ddull systematig o gyflawni gwell profiadau a chanlyniadau trwy newid ymddygiad a threfniadaeth darparwyr**



**Geirdaon**

1. 1 Rethink (2013) Lost Generation Report, lost-generation-rethink-mental-illness-report.pdf
2. The Royal College of Psychiatrists (2021) Quality Standards for Early Intervention in Psychosis Services (Second Edition) CCQI 373
3. Royal College of Psychiatrists (2022) National Clinical Audit of Psychosis – Wales National Report for the Early Intervention in Psychosis Audit 2021/2022. Llundain: Partneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd. Ar gael o: www.rcpsych.ac.uk/NCAP
4. Garety, P., Craig, T., Dunn, G., Fornells-Ambrojo, M., Colbert, S., Rahaman, N., Read, P. & Power, P. (2006) Specialised care for early psychosis: symptoms, social functioning and patient satisfaction. British Journal of Psychiatry, 188. 37-45
5. McGorry, P., Johanessen, J., Lewis, S., Birchwood, M., Malla, A., Nordentoft, M., Addindton, J. & Yung, A (2010) Early Intervention in psychosis: keeping faith with evidence based health care. Psychol Med, 40. 399-404
6. Implementing the Early Intervention in Psychosis Access and Waiting Time Standard: Guidance (2016) NHS England, the National Collaborating Centre for Mental Health and the National Institute for Health and Care Excellence
7. Gwelliant Cymru (2022) Buddsoddi yn y Genhedlaeth Nesaf: beth sydd angen ei newid ar gyfer pobl sydd â seicosis cynnar sy'n byw yng Nghymru. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cydnabyddiaethau**

Papur wedi'i ddatblygu gan dîm Rhaglen EIP Gwelliant Cymru

Diolch i'r gweithlu EIP a'r holl asiantaethau partner sy'n ymwneud â chefnogi gwasanaethau EIP yng Nghymru, am eich ymrwymiad, eich angerdd a'ch egni i wella gofal a phrofiadau i bobl ifanc â seicosis cynnar

## Gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau trwy ymweld â'n gwefan a chofrestru ar gyfer ein e-gylchlythyr misol:

https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/

## Gallwch hefyd ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol:

Dilynwch ni ar Twitter @GwelliantCymru

Cliciwch hoffi ar Facebook

Tanysgrifiwch i ni ar YouTube

Cysylltwch â ni ar ein tudalen LinkedIn


## Gwelliant Cymru

Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ



**© 2023 Gwelliant Cymru**



Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023



Mae'r ddogfen hon wedi'i thrwyddedu o dan Creative Commons Attribution-NonCommercial-NoDerivatives 4.0 International (CC BY-NC-ND 4.0). Mae hyn yn caniatáu ar gyfer copïo ac ailddosbarthu'r ddogfen hon cyn belled â bod Gwelliant Cymru yn cael clod a chydnabyddiaeth lawn. Ni ddylid ail-lunio, gweddnewid na datblygu'r deunydd mewn unrhyw ffordd. I weld copi o'r drwydded hon, ewch i https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/